



Y Gynghrair ar  
gyfer Tystiolaeth  
Ddefnyddiol

# Tystiolaeth er da

Sut mae elusennau yn  
defnyddio tystiolaeth  
i sicrhau mwy o  
ddylanwad ac effaith

Gorffennaf 2018

Ariennir gan:

**nesta**



ARIENNIR GANY  
LOTERI GENEDLAETHOL  
NATIONAL  
LOTTERY FUNDED



Wales Centre  
for Public Policy  
Canolfan Polisi  
Cyhoeddus Cymru



# Y Gynghair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol

Ariennir gan:

**nesta**



## Ynglŷn â'r Gynghair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol

Mae'r Gynghair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol yn rhwydwaith, a gynhelir gan Nesta, sy'n hyrwyddo'r defnydd mwy deallus o dystiolaeth ym maes polisi ac ymarfer cymdeithasol. Rydym yn gwneud hyn drwy eiriolaeth, cynnal digwyddiadau, rhannu syniadau ac adnoddau, a chefnogi unigolion a sefydliadau drwy gyngor a hyfforddiant. Rydym yn hyrwyddo ein gwaith drwy ein rhwydwaith o fwy na 3,700 o unigolion o bob rhan o'r llywodraeth, prifysgolion,

elusennau, busnesau ac awdurdodau lleol yn y DU ac yn rhyngwladol. Gall unrhyw un ymuno â rhwydwaith y Gynghair am ddim.

I gofrestru ewch i:

[www.alliance4usefulevidence.org/join](http://www.alliance4usefulevidence.org/join)

Rydym yn cael ein hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, a Nesta.



**Wales Centre  
for Public Policy**

**Canolfan Polisi  
Cyhoeddus Cymru**

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Sefydlwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2017. Ei chenhadaeth yw gwella'r broses o lunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus drwy helpu gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth annibynnol a thrylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi eraill er mwyn cyfodod a chrynhofi dystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd. Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda

llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth newydd ynglŷn â sut i ymateb i heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, y economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

Rydym yn cael ein hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd.



## Am Nesta

Mae Nesta yn elusen arloesi fyd-eang. Rydym yn cefnogi syniadau newydd i ymateb i heriau mawr ein hoes. Rydym yn defnyddio ein gwybodaeth, ein rhwydweithiau, ein cyllid a'n sgiliau – gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys

llywodraethau, busnesau ac elusennau. Elusen yn y DU ydym ond rydym yn gweithio dros y byd i gyd, wedi ein cefnogi gan waddol ariannol.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth ewch i [www.nesta.org.uk](http://www.nesta.org.uk)




Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall megis Braille, print bras neu dâp sain, cysylltwch â ni yn: [information@nesta.org.uk](mailto:information@nesta.org.uk)

# Tystiolaeth er da

Sut mae elusennau yn defnyddio tystiolaeth i sicrhau mwy o ddylanwad ac effaith

Emma Taylor-Collins

Gorffennaf 2018

Cydnabyddiaethau	4
Cyflwyniad	5
Astudiaethau achos	8
 RHOI CYCHWYN ARNI	10
 GWELL YMARFER	13
 NEWID Y DIRWEDD	15
Beth rydym wedi'i ddysgu?	18
Y gair olaf	20
Ôl-nodiadau	21



Y Gynghair ar  
gyfer Tystiolaeth  
Ddefnyddiol

Ariennir gan:

**nesta**



# Cydnabyddiaethau

Rwy'n hynod ddiolchgar i **Tony Munton**, **Helen Mthiyane** a **Jane O'Brien** am eu gwaith caled ar ddrafftiau cynharach o'r adroddiad hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i bob un o'r elusennau sy'n rhan o'r adroddiad hwn am eu parodrwydd i roi cyngor gonest a mewnweledol ar elusennau eraill, a'u cymorth i lunio'r astudiaethau achos: **Melissa Henry** yn Common Cause; **Alex Smith** yn y Cares Family; **Harriet Laurie** yn TheHorseCourse; **Sam Austin** yn Llamau; **Jamila Boughelaf** yn Mentor UK; **Rob Cope** yn Remember a Charity; a **Linda Hutton** a **Rob Gowans** yn Cyngor ar Bopeth yr Alban. Hoffwn ddiolch hefyd i'm cydweithwyr **Steve Martin**, **Jonathan Breckon**, **Pippa Coutts**, a **Steve Wise** am eu cymorth wrth i mi lunio a chyhoeddi'r adroddiad hwn.

Yr awdur sy'n gyfrifol am unrhyw wallau neu unrhyw beth a hepgorwyd.

## Ynglŷn â'r awdur

Mae **Emma Taylor-Collins** yn Uwch Swyddog Ymchwil yn y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, gan arwain prosiectau ymchwil ac ymgysylltu sy'n hyrwyddo'r defnydd o dystiolaeth ym maes polisi ac ymarfer cymdeithasol, gyda ffocws ar Gymru. Mae gan Emma gefndir yn y sector elusennol, ac mae'n astudio ar gyfer PhD yn rhan amser ar wirfoddoli ieuentid yng Nghanolfan Ymchwil Trydydd Sector Prifysgol Birmingham.

# Cyflwyniad

Mae'r Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn hyrwyddo'r defnydd mwy deallus o dystiolaeth ym maes polisi ac ymarfer cymdeithasol. Rydym yn gwneud hyn oherwydd, er bod biliynau o bunnau yn cael eu gwario ar raglenni polisi cymdeithasol, yn amlach na dim, caiff hyn ei wneud heb unrhyw dystiolaeth drylwyr bod polisïau'n gweithio mewn gwirionedd. Ac nid am nad yw'r dystiolaeth ar gael y mae hyn yn digwydd - yn aml mae yna dystiolaeth, ond nid yw'n cael ei defnyddio na'i hintegreiddio'n awtomatig â phrosesau gwneud penderfyniadau.

Hyd yma, mae'r Gynghrair a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi gwneud llawer o waith gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn llywodraeth ganolog a lleol ac ochr yn ochr â rhwydwaith Beth sy'n Gweithio y DU er mwyn sicrhau bod comisiynwyr ac ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cael gafael ar dystiolaeth hygyrch, annibynnol o safon uchel i lywio eu gwaith. Mae'r Gynghrair yn gweithredu drwy, ymhlith pethau eraill, ddadlau dros brosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth drwy hyfforddiant, seminarau, digwyddiadau, cyhoeddiadau a datblygu ein rhwydwaith o unigolion a sefydliadau sy'n rhannu ein hawydd am weld gwell defnydd o dystiolaeth ym maes polisi ac ymarfer cymdeithasol. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn rhoi tystiolaeth o safon uchel a chyngror annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i wella penderfyniadau ynglŷn â pholisïau a'u canlyniadau. Mae'r Ganolfan hefyd yn gwneud ymchwil i wella dealltwriaeth o'r rôl y gall tystiolaeth ei chwarae i helpu i lunio polisïau gwell a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Daw llawer o'r 3,700 o aelodau rhwydwaith y Gynghrair o'r sector elusennol, fel sawl un o'n Hyrwyddwyr Tystiolaeth. Ac nid ni yn unig sy'n meddwl ei bod yn hollbwysig bod elusennau yn defnyddio tystiolaeth yn effeithiol. Fel y nododd adroddiad *Stronger Charities for a Stronger Society* y Pwyllgor Dethol ar Elusennau:

*We are living through a time of profound economic, social and technological change and the environment in which charities are working is altering dramatically. These changes have posed new challenges for charities, resulted in some high-profile failures, and led to greater scrutiny of the sector than ever before.*<sup>1</sup>

Yn rhannol o ganlyniad i hyn, mae elusennau hefyd o dan bwysau cynyddol i fesur effaith yr hyn y maent yn ei wneud – mae'n rhan o'r fargen pan fyddant yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, fel y mae elusennau yn ei wneud yn fwyfwy, ac yn aml mae wedi'i gynnwys yn y gofynion cyllido.<sup>2</sup> Fel y cyfryw, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu llu o adroddiadau, pecynnau cymorth a chanllawiau sydd â'r nod o helpu elusennau i fesur eu heffaith, o raglen *Inspiring Impact* NPC i *Evaluation Support Scotland*, hwb adnoddau Canolfan Effaith leuentid.

Er bod digon o gyngor ar werthuso effaith, mae llawer llai ar gael ar y ffordd y gallai elusennau ddefnyddio tystiolaeth mewn ffyrdd eraill, megis pan fyddant yn dechrau, pan fyddant yn mynd yn fwy o faint, neu pan fyddant yn dylanwadu ar bolisïau. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn anelu at lenwi'r bwlch hwnnw, gan ystyried ffyrdd y gall elusennau ddefnyddio tystiolaeth i wella'r ffordd y maent yn gweithio.

## I bwy mae'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad wedi'i anelu at unrhyw un sy'n gweithio yn y sector elusennol – boed hynny fel ymarferydd rheng flaen sy'n ymdrin â chleientiaid, Prif Swyddog Gweithredol, neu ymddiriedolwr. Mae ymchwil flaenorol wedi dweud wrthym fod y cennad yn bwysig o ran annog eraill i ddefnyddio tystiolaeth, ac y gall pobl ddylanwadol helpu i ddarbwylo eu cymheiriaid o werth tystiolaeth.<sup>3</sup> Fel y cyfryw, rydym wedi siarad ag elusennau sy'n gweithio ar nifer o achosion ledled y DU, gan ddangos saith elusen sydd wedi defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth i wneud eu sefydliadau'n fwy effeithiol, o ddyddiau cynnar sefydlu elusen, i wella ymarfer, i newid yr amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo.


## Beth a olygwn wrth dystiolaeth?

Rydym yn ystyried tystiolaeth o safbwynt cynhwysol yn fwriadol, o ymchwil ac astudiaethau gwerthuso i wybodaeth arbenigol ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid. I ni, mae tystiolaeth dda – a defnyddiol – yn gadarn ac yn briodol ar gyfer y mater dan sylw.

Yn bwysig ddigon, mae tystiolaeth yn golygu mwy na data yn unig. Mae elusennau yn aml yn casglu cryn dipyn o ddata monitro – nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth, ble maent yn byw, eu barn am y gwasanaeth a gawsant, ac ati. Ond nid yw data o'r fath yn rhoi unrhyw wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio mewn gwirionedd, yr hyn sy'n cael effaith, na mewnwelediadau i gost-effeithiolrwydd. Yr allwedd yw troi data monitro o'r fath yn dystiolaeth.

Mae data meintiol yn rhywbeth sydd wedi cael ei gyfrif neu ei fesur – mae'n mynegi maint, swm neu amrediad. Caiiff data ansoddol eu casglu o farnau, safbwyntiau, nodiadau neu arsylwadau. Yn aml, maent ar ffurf geiriau, ymadroddion, lluniau neu symbolau. Nid yw'r naill fath o ddata yn well na'r llall – mae ganddynt ddefnyddiau gwahanol – ac ar eu ffurf grai, nid yw'r naill na'r llall yn arbennig o ddefnyddiol.

Er enghraifft, dyweder bod elusen yn casglu data ar faint o bobl sy'n defnyddio ei gwasanaethau, pa mor aml, pwy ydynt, a'u barn. Ni fydd data ar eu pen eu hunain yn dweud llawer wrthym. Y man cychwyn wrth ddehongli data yw gofyn cwestiynau am y data, a'u codio a'u dadansoddi yn unol â hynny. Mae hyn yn cynhyrchu gwybodaeth, ac unwaith mae wybodaeth gennym mae gennym ryw beth defnyddiol; gall gwybodaeth ddweud rhywbeth wrthym neu daflu goleuni ar gwestiwn. Dyma'r adeg, pan fydd gwybodaeth yn rhoi mewnwelediad ac yn ateb cwestiwn, y bydd gennym dystiolaeth.



Er enghraifft, dychmygwch fod banc bwyd am wybod a yw'n cyrraedd menywod di-waith, ifanc, lleol.

Mae'n casglu gwybodaeth am ddefnyddwyr wrth iddynt ddod i mewn a defnyddio'r gwasanaeth. Mae gwirfoddolwyr yn casglu gwybodaeth ddemograffig safonol, gan gynnwys enwau, cyfeiriadau, oedran, ethnigrwydd, statws cyflogaeth, a oes ganddynt salwch neu anabledd, a oes ganddynt blant neu a ydynt yn byw ar eu pennau eu hunain, ac ati. Dim ond pan fyddwn yn trefnu ac yn dadansoddi'r data y gallwn ddechrau ateb y cwestiwn cychwynol.

I elusennau, gall tystiolaeth dda roi mewnwelediad i'r hyn y mae Geoff Mulgan yn ei ddisgrifio fel 'y chwech w' yn Saesneg: beth sy'n gweithio, i bwy, pryd, ble a gyda phwy.<sup>4</sup> Ac fel y noda ein *Using Research Evidence: A Practice Guide*:

*Evidence can make organisations more effective. From more persuasive campaigning to winning grant funding, and from developing a board's decision-making abilities to making sure programmes deliver results – evidence can bolster your work. It doesn't matter if you are a small voluntary organisation or a large government department.*<sup>5</sup>

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar dystiolaeth ymchwil – tystiolaeth a ategir gan ymchwil yn hytrach na barn arbenigol neu safbwyntiau rhanddeiliaid<sup>6</sup> – oherwydd er mai dim ond un math o dystiolaeth yw ymchwil, mae iddi fanteision, sef mwy o drylwyredd, perthnasedd ac annibyniaeth o'i chymharu â mathau eraill o dystiolaeth.<sup>7</sup>

## Astudiaethau achos

Mae pob astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn yn cynnig cyngor ar ffurf gwersi byrion gan yr elusennau eu hunain ynglŷn â sut y gallech wneud rhywbeth tebyg.



### RHOI CYCHWYN ARNI

#### ASTUDIAETH ACHOS

##### Sefydlu elusen

Elusen:

**Common Cause**

Achos:

Gwerthoedd

Math o dystiolaeth ymchwil a ddefnyddiwyd:

Meintiol (arbrawf)

#### ASTUDIAETH ACHOS

##### Nodi angen

Elusen:

**The Cares Family**

Achos:

Unigrwydd ac ynysu cymdeithasol

Math o dystiolaeth ymchwil a ddefnyddiwyd:

Meintiol (meta-ddadansoddiad; holiadur)

#### ASTUDIAETH ACHOS

##### Cael ei chomisiynu

Elusen:

**TheHorseCourse**

Achos:

Gostwng aildroseddu a gwella ymgysylltu â'r ysgol

Math o dystiolaeth ymchwil a ddefnyddiwyd:

Dulliau cymysg (holiaduron a chyfweliadau cyn ac ar ôl)





## GWELL YMARFER

### ASTUDIAETH ACHOS

#### Gwella hyfforddiant staff

Elusen:

**Llamau**

Achos:

Diweithdra  
ymhlith  
pobl ifanc a  
menywod

Math o  
dystiolaeth  
ymchwil a  
ddefnyddiwyd:

Ansoddol  
(astudiaeth  
hydredol  
ansoddol)

### ASTUDIAETH ACHOS

#### Cynllunio gwasanaethau newydd

Elusen:

**Mentor UK**

Achos:

Camddefn-  
yddio cyffuriau  
ac alcohol

Math o  
dystiolaeth  
ymchwil a  
ddefnyddiwyd:

Meintiol  
(arbrawf)



## NEWID Y DIRWEDD

### ASTUDIAETH ACHOS

#### Ymgyrchu

Elusen:

**Remember a  
Charity**

Achos:

Cymynroddion  
elusennol

Math o  
dystiolaeth  
ymchwil a  
ddefnyddiwyd:

Meintiol  
(arbrawf)

### ASTUDIAETH ACHOS

#### Llywio polisïau

Elusen:

**Scottish  
Citizens  
Advice  
Bureaux**

Achos:

Hawliau  
dinasyddion

Math o  
dystiolaeth  
ymchwil a  
ddefnyddiwyd:

Ansoddol  
(grwpiau  
ffocws;  
cyfweiliadau)



## RHOI CYCHWYN ARNI

### Sefydlu elusen: Common Cause

Caiff y rhan fwyaf o elusennau eu sefydlu i ddiwallu angen penodol; defnyddio tystiolaeth yw'r hyn sy'n dod nesaf, yn hytrach na'r hyn sy'n dod gyntaf. Yr hyn sy'n llai cyffredin yw elusen sy'n tyfu o sylfaen dystiolaeth – fel Common Cause Foundation, sydd wedi'i lleoli yng Nghymru ond sy'n gweithio ledled y DU, sydd â'r nod o roi gwerthoedd sy'n blaenoriaethu cymunedau, yr amgylchedd a chydaddoldeb wrth wraidd sefydliadau diwylliannol, gwleidyddol a dinesig.

Am flynyddoedd, y dybiaeth oedd y gellid darbwyllo pobl i fod yn gefnogol i'r amgylchedd pe baent yn cael gwybod beth oedd y manteision iddynt hwy, ond dadl Common Cause oedd nad oedd hyn yn wir o reidrwydd.<sup>8</sup> Mae ymchwil seicoleg gymdeithasol gan academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd ac mewn mannau eraill wedi dangos bod pobl yn aml yn cael eu cymell i wneud pethau da pan fydd ymgyrchoedd yn apelio at eu gwerthoedd 'cynhenid', neu werthoedd sy'n ymwneud â phryderon ynglŷn â phobl eraill, y gymuned neu'r byd yn fwy cyffredin. A mwy na hynny, gall apelio at gymhellion hunanol danseilio cymhelliant pobl i ymgymryd ag ymddygiadau amgylcheddol mewn gwirionedd.<sup>9</sup>

Nododd yr ymchwil hefyd 'bwllch canfyddiad' o ran gwerthoedd: fel arfer, mae pobl yn tanamcangyfrif y pwys y mae cyd-ddinasyddion yn ei roi ar werthoedd 'cynhenid', ac fel arfer maent yn goramcangyfrif y pwys y mae pobl eraill yn ei roi ar werthoedd llwyddiant ariannol neu ddelwedd gyhoeddus.<sup>10</sup> Mae'r 'bwllch canfyddiad' hwn yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n llai cadarnhaol ynghylch ymgysylltu dinesig, a phrofi mwy o ymddieithrio cymdeithasol.<sup>11</sup>

Y peth mwyaf arwyddocaol a ddeilliodd o'r dystiolaeth hon fwy na thebyg oedd sefydlu Common Cause Foundation. Yn wreiddiol, rhaglen o fewn WWF ydoedd. Yn 2015 daeth yn sefydliad nid er elw yn ei rinwedd ei hun, yn gweithio gyda sefydliadau mewn nifer o sectorau i roi'r hyn y mae'r dystiolaeth ar werthoedd yn ei ddangos ar waith. Fel y noda Melissa Henry, Cyfarwyddwr Common Cause Foundation,

*"Evidence gives us permission to challenge business as usual. It confirms it is possible to do things differently, drawing on a robust evidence base".*

Mae Common Cause Foundation wedi datblygu cyfres o adnoddau ymarferol a gweithdai i ymgyrchwyr, cyfathrebwyr, codwyr arian ac eiriolwyr i ddatblygu dull ymgysylltu sy'n seiliedig ar werthoedd. Yn fwy diweddar, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Manceinion, cyflwynodd Common Cause Foundation nifer o newidiadau yn yr amgueddfa i apelio at y gwerthoedd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a gofal am ein hamgylchedd naturiol.

Fel y noda Tom Crompton, Cyfarwyddwr Common Cause Foundation,

*"This has enabled the development of ways to engage and model 'intrinsic' values that are transferable to a range of settings. We're now interested in coalescing networks of organisations like Manchester Museum that are able to help normalise 'intrinsic' values as part of people's everyday identity, celebrating the values that bring people together and underpin citizens' demand for action on social and environmental issues."*

Nesaf, mae Common Cause yn bwriadu datblygu hyfforddiant sydd wedi'i lywio gan dystiolaeth i sefydliadau, gan helpu sefydliadau eraill i roi'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos ar werthoedd a chanfyddiadau ar waith.

#### Gwersi byrion:

- Gall tybiaethau a luniwyd heb dystiolaeth i'w hategu nid yn unig arwain at waith aneffeithiol, ond gallant danseilio'r union fater rydych yn ceisio mynd i'r afael ag ef.
- Heb dystiolaeth gadarn, gall fod yn anodd herio 'busnes fel arfer'. Ac eto, fel y mae'r NPC wedi dadlau'n ddiweddar, ni fydd busnes fel arfer yn ddigon da mwyach mewn amgylchedd cyllido anodd – bydd yn rhaid i elusennau feddwl am y ffordd y gallant sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, gan fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael, arloesi a thrawsnewid eu gwaith.<sup>12</sup> Fel y dengys Common Cause, gall tystiolaeth helpu elusennau i wneud hynny.

## Nodi angen: Cares Family

Un feirniadaeth gyffredin o elusennau newydd yw eu bod yn cael eu sefydlu heb unrhyw dystiolaeth o angen amlwg.<sup>13</sup> Nid felly The Cares Family, sef grŵp o elusennau (North London Cares, South London Cares a Manchester Cares ar hyn o bryd) sy'n anelu at leihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol ymhlith pobl hŷn ac iau fel ei gilydd mewn dinasoedd sy'n newid yn gyflym.

Mae wedi cymryd amser i wleidyddion yn y DU gymryd unigrwydd o ddifrif, gyda 2018 yn nodi'r flwyddyn y penodwyd y 'Gweinidog drws Unigrwydd' cyntaf yn y DU ac yr amlinellodd Llywodraeth yr Alban strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu – sef y strategaeth gyntaf o'i bath yn y byd yn ôl y sôn<sup>14</sup> – ond mae unigrwydd wedi cael ei gydnabod yn fater pwysig ers llawer mwy o flynyddoedd na hynny. Ac yn bennaf gan The Cares Family, a sefydlwyd gan Alex Smith yn 2011 ar ôl iddo ddod yn gyfaill i ddyn hŷn yn ei gymdogoeth a oedd wedi'i ynysu oddi wrth y bobl a'r lleoedd o'i amgylch. Er mai drwy brofiad personol y cafodd ei ysbyrdoli, cyn sefydlu'r elusen, roedd Alex am gadarnhau a oedd yr angen a nodwyd ganddo yn ei gymuned ei hun yn bodoli ar raddfa fwy helaeth. Defnyddiodd Alex hwb ymchwil Campaign to End Loneliness' sy'n casglu tystiolaeth ar unigrwydd o'r DU a ledled y byd drwy fesurau a dderbyniwyd ac yr ymddiriedwyd ynddynt, a chanfu fod unigrwydd yn niweidiol i iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl. Fel y noda Alex,

*"The Cares Family have always sought good evidence. It can teach us so much about how we operate, the people we are reaching and the impact we are having on their lives – and of course it's vital for building a coalition of supporters to understand our vision and to fund our work."*

Wrth i'r Cares Family ehangu, defnyddiodd dystiolaeth gadarn a oedd yn bodoli eisoes a ddangosodd fod unigrwydd mor niweidiol i iechyd pobl â smygu.<sup>15</sup> Roedd yn cyfleu negeseuon pwerus ynglŷn â nifer y bobl hŷn (dau o bob pump)<sup>16</sup> a ddywedodd mai'r teledu oedd eu prif fath o gwmni, a dangosodd effeithiau unigrwydd ar wasanaethau cyhoeddus.<sup>17</sup>

Drwy ymrwymiad The Cares Family i weithredu yn y modd hwn, cyfrannodd at y sylfaen dystiolaeth gynyddol ynglŷn ag unigrwydd drwy gynnal ei werthusiadau o waith yr elusen hefyd - y cafodd un ohonynt ei ariannu fel rhan o Gronfa'r Ganolfan Arloesi mewn Gweithredu Cymdeithasol Nesta a Swyddfa'r Cabinet<sup>18</sup> – a nododd rai canfyddiadau annisgwyl a wnaeth chwyldroi ei model ariannu.

Cyn hynny, roedd y grŵp wedi cynhyrchu ei incwm bron yn gyfan gwbl drwy grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau. Ond canfu ei werthusiadau fod awydd gwirioneddol ymhlith pobl ifanc a phartneriaid lleol eraill i helpu i godi arian. Bellach, mae'r arian a godir drwy'r rhwydweithiau cymunedol hynny wedi cynyddu o 0 y cant o gyfanswm ei incwm yn 2013-2014 i 46 y cant o'i incwm yn 2016-2017. Ac nid dim ond codi arian y mae'r gweithgareddau hyn yn ei wneud – maent yn dwyn pobl ynghyd i fynd i'r afael â'r union broblem o ran ynysu cymdeithasol ac unigrwydd y mae The Cares Family yn ceisio ei datrys. Yn bwysig ddigon, mae Alex yn nodi'n glir:

*"We don't prioritise data over people. We are always conscious of building an evidence base, through curation and creation, that directly measures our progress on our unique objectives, rather than just on abstract numbers which can sometimes mislead. That's the number one concern – good evidence that puts people first – and as we experiment with new evaluation models in the future, it's something we're looking forward to learning more about".<sup>19</sup>*

Mae 5,000 o bobl broffesiynol ifanc a thua 4,000 o bobl hŷn bellach yn rhan o North London Cares, South London Cares a Manchester Cares. Mae'r grŵp yn bwriadu ehangu ymhellach yn y blynyddoedd sydd i ddod, gan barhau i wneud defnydd da o dystiolaeth wrth iddo fynd yn fwy.

### Gwersi byrion:

- Mae cyfoeth o dystiolaeth gadarn wedi'i gyhoeddi ar lu o faterion cymdeithasol, sydd yn aml ar gael am ddim. Cyn mynd ati i ymchwilio eich hun, ac yn sicrhau cyn sefydlu'ch elusen eich hun, meddyliwch sut y gallwch ddefnyddio'r hyn sydd eisoes ar gael. Os bydd angen help arnoch i bori drwy'r cyfan, gall hybiau ymchwil fel yr Ymgyrch i Roi Terfyn ar Unigrwydd helpu i gyfosod tystiolaeth.
- Gall gwerthusiadau o'r effaith ddweud mwy wrthyhych na'r disgwyl. Byddwch â meddwl agored ynglŷn â'r hyn y gallech ei ganfod, meddyliwch yn greadigol am yr hyn rydych yn ei fesur, a byddwch yn barod i feddwl ychydig yn wahanol ynglŷn â sut y gallai tystiolaeth newid y ffordd rydych yn cynnal eich busnes, nid dim ond y ffordd rydych yn cyflwyno'ch rhaglenni.

## Cael ei chomisiynu: TheHorseCourse

Pan fo arian yn brin, gall tystiolaeth deimlo fel rhywbeth braf i'w gael yn hytrach na modd i oroesi. Ond i TheHorseCourse, tystiolaeth gadarn – ynghyd â'r cydberthnasau cadarnhaol yr oedd wedi'u meithrin â chomisiynwyr – a ataliodd yr elusen rhag mynd i'r wal yn y pen draw.

Nod TheHorseCourse yw gostwng aildroseddu a gwella presenoldeb ac ymgysylltu yn yr ysgol drwy raglenni dwys sy'n llenwi'r bwlch lle nad yw siarad yn gweithio, yn ôl disgrifiad Harriet Laurie, Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd. Mae'r elusen fach hon yn Dorset, sy'n gweithio mewn carchardai a chyda phlant a phobl ifanc, yn cynnal gweithgareddau sy'n cynnwys ceffylau drwy atgyfeirio pobl sy'n wynebu nifer o heriau – o ieched meddwl gwael i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a diweithdra.

Mae Harriet wedi sicrhau bod tystiolaeth yn rhan ddi-dor o ymarfer TheHorseCourse o ddydd i ddydd – drwy drefnu i israddedigion, myfyrwyr doethuriaeth ac athrawon o Brifysgol Bournemouth weithio ar wahanol brosiectau, i bartneriaeth â NPC ar ddadansoddiad o theori newid a chyfrannu, a gwaith gyda Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau Cyngor Cenedlaethol y Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO CES). Mae Harriet yn dadlau bod hyn:

*"Adds richness to our work, always. Evidence is disruptive, and that's a good thing: it provokes discussions, raises questions, and brings a fresh perspective to what we do".*

Mae'r gefnogaeth y mae Harriet wedi llwyddo i'w chael oddi wrth academyddion a sefydliadau ymchwil eraill – i'r graddau y mae Prifysgol Bournemouth bellach yn galw am gyllid am Hap-dreial wedi'i Reoli o TheHorseCourse – yn golygu bod y rhan fwyaf o'r ymchwil hon wedi cael ei gwneud am ddim neu am gost isel. Gwnaeth un darn o ymchwil yn benodol, a gynhaliwyd gyda chymorth NCVO CES, helpu TheHorseCourse i oresgyn sefyllfa gyllido anodd. Roedd angen i TheHorseCourse ddangos y gallai weithio mewn lleoliadau cymunedol yn ogystal ag mewn carchardai, felly gwnaeth gynnig 20 lle am ddim ar gwrs i bobl ifanc a oedd yn hysbys i'r gwasanaethau plant lleol, a'i werthuso, gan baratoi'r Youth Outcomes Summary (2015).

*"We got to a point where we had about three months' funding left and we knew we had to reach commissioners if we were to survive. What we got from NCVO CES was about a day's worth of time, spread across a few weeks, of bespoke guidance and advice from an expert CES consultant".*

Sicrhaodd ymgynghorydd y Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau fod y gwaith wedi'i gynllunio'n gadarn a bod y canfyddiadau wedi'u dehongli'n gywir. Dywed Harriet:

*"What I could bring was closeness to the data and knowledge of what was possible and realistic for us to do; what the consultant brought was the kind of knowledge we just didn't have in-house at the time, it being just me and a few freelancers at that point."*

Nod y gwaith oedd cael comisiwn – a dyna beth y llwyddwyd i'w gael. Aeth Harriet ati i anfon yr adroddiad ar Ganlyniadau i Bobl Ifanc at Plant mewn Angen a'r tîm Teuluoedd Trwblus yn yr awdurdod lleol, a'i ddefnyddio i sicrhau cymysgedd o arian elusennol a chomisiynau i TheHorseCourse weithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd yn Dorset. Yr allwedd i lwyddiant Harriet oedd cyfuno tystiolaeth bendant ar ganlyniadau â storïau, a meithrin perthynas dda â chomisiynwyr. Gwahoddwyd comisiynwyr i weld TheHorseCourse ar waith eu hunain. Fel y dywed Harriet:

*"Giving people a bunch of research reports and leaving it at that doesn't automatically make doors or cheque books open. It doesn't matter how good the evidence is – if you don't invest in the people side, telling stories, engaging people on an emotional level, they aren't going to take much notice of it. That's what gets commissioners involved in what you do; the evidence makes them feel comfortable about ultimately making that decision to commission your service."*

Mae gan TheHorseCourse dîm o bum aelod llawn amser o staff ac 20 o wirfoddolwyr bellach, ac mae wedi ymestyn ei chyrhaeddiad i weithio gyda 500 o unigolion y flwyddyn. Mae bellach yn gobeithio cael cyllid i ariannu Hap-dreial wedi'i Reoli er mwyn i'r elusen allu ddangos ymhellach y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i fywydau pobl ifanc.

## Gwersi byrion

- Mae angen i dystiolaeth dda gael ei chyfleu yn y ffordd gywir i'r cynulleidfaoedd cywir er mwyn iddi wneud gwahaniaeth. Dylai unrhyw fuddsoddiad mewn tystiolaeth hefyd fynd law yn llaw â buddsoddiad mewn meithrin cydberthnasau er mwyn helpu i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.
- Gydag academyddion o dan bwysau cynyddol i ddangos effaith eu gwaith ar gymdeithas fel rhan o'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), ac elusennau yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol sylweddol ac amgylchedd cyllido mwy cystadleuol, gall cydweithrediadau ymchwil rhwng prifysgolion ac elusennau fod yn fuddiol

i'r naill a'r llall a gallant weithiau roi cymorth ymchwil am ddim. Mae elusennau yn cael budd o arbenigedd ymchwil annibynnol, cadarn ac mae prifysgolion yn cael budd o fynediad at grwpiau ac unigolion, y gallai fel arall fod yn anodd eu cael i gymryd rhan mewn ymchwil.

- Hyd yn oed os nad yw arbenigedd ymchwil ar gael am ddim, nid oes rhaid iddo fod yn gostus dros ben – gall buddsoddiad cymharol fach mewn cyngor helpu i ddatblygu tystiolaeth gadarn, gan helpu i sicrhau ffynonellau newydd o gyllid a chynnig yr hygredded a'r dibynadwyedd sydd eu hangen i wneud argraff ar gomisiynwyr.



## GWELL YMARFER

## Gwella hyfforddiant staff: Llamau

Nod Llamau sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd yw dileu diweithdra ymhlith pobl ifanc a menywod yng Nghymru. Mae'n darparu llety diogel, gwasanaethau atal, cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant mewn sgiliau, a chymorth iechyd meddwl ledled Cymru. Mae Llamau hefyd yn arwain menter Rhoi Terfyn ar Ddiweithdra i'r DU gyfan (2016 New Radical), ac mae'n rhan o brosiect Arloesi i Arbed Nesta a Llywodraeth Cymru i brofi model cyllido buddsoddiad cymdeithasol newydd, cynaliadwy.

Noda Sam Austin, y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol yn Llamau

*"we've always been interested in research – one of our core values is about learning – both to help us improve as an organisation, but also to help us stand out in what is an increasingly competitive tendering environment for charities like ours".*

Mae'r ymrwymiad hwn i ymchwil wedi arwain at bartneriaeth hirsefydlog rhwng Llamau a Phrifysgol Caerdydd. Yn ôl yn 2012, ar ôl darllen am ymchwil

Prifysgol Caerdydd i ddiweithdra yn UDA, cysylltodd Frances Beecher, Prif Swyddog Gweithredol Llamau, â Phrifysgol Caerdydd i weld a allai newid ei ffocws yn nes at adref. Dyma ddechrau partneriaeth sydd wedi gweld 12 o leoliadau i israddedigion Seicoleg gyda Llamau, dwy ddoethuriaeth ar waith Llamau wedi'u cwblhau, a chytundeb diweddar i gael Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol a Chynorthwydd Ymchwil o Brifysgol Caerdydd i weithio ar brosiect newydd gyda Llamau hyd at 2021.

Gwnaeth y gyntaf o'r doethuriaethau hyn,<sup>20</sup> a gwblhawyd yn 2014 fel Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth,<sup>21</sup> ar iechyd meddwl a diweithdra ieuencid, won the Social Innovation Award at Cardiff University's 2015 Innovation and Impact Awards. Roedd yr astudiaeth hydredol ansoddol hon yn cynnwys cyfweiliadau â 121 o bobl ifanc 16-24 oed a gafodd eu cartrefu'n wreiddiol yn llety dros dro Llamau. Cyfwelwyd â 90 o'r bobl ifanc hyn unwaith eto naill ai 8-12 mis yn ddiweddarach neu 16-24 mis yn ddiweddarach. Canfu'r astudiaeth fod y bobl ifanc hyn yn llawer mwy tebygol o gael problem iechyd meddwl na'r boblogaeth gyffredinol

o'r un oedran, a bod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc sy'n ddigartref yn bryderus o isel. O ganlyniad i'r ymchwil hon, yn 2013 cyflwynodd Llamau adnodd sgrinio i nodi problemau iechyd meddwl ar gam cynnar.

Dylanwadodd yr ymchwil ar waith Llamau mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, newidiodd y ffordd y mae'n hyfforddi gweithwyr iechyd meddwl, sydd bellach wedi'u paratoi'n well i helpu pobl ifanc i gael gafael ar y gofal iechyd sydd ei angen arnynt. Yn ail, defnyddiodd Llamau y canfyddiadau i ddangos y cysylltiad rhwng iechyd meddwl a diweithdra i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<sup>22</sup> yng Nghymru ar y pryd, gan arwain at gydweithredu rhwng Llamau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn olaf, dechreuodd pobl ifanc a oedd yn defnyddio gwasanaethau Llamau fynd â chopïau o'r adnodd sgrinio at eu meddyg teulu, ac ers hynny mae meddygon teulu wedi cysylltu â Llamau i drafod defnyddio ei adnodd yn eu practisau.

Cafodd yr ail draethawd ymchwil doethuriaeth – astudiaeth dulliau cymysg a oedd yn cynnwys arbrogion a holiadur ynglŷn â gweithrediad gwybyddol gyda 69 o bobl ifanc a oedd yn ddigartref – ei gwblhau yn 2018 a chaiff y canfyddiadau llawn eu rhannu â Llamau cyn hir. Mae Llamau eisoes wedi defnyddio'r canfyddiadau interim i lywio'r ffordd y mae staff yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau – drwy roi gwybodaeth mewn darnau bach, annog prosesau gwneud penderfyniadau arafach, a sicrhau bod cyn lleied o bethau â phosibl a all dynnu sylw rhywun er enghraifft – ac mae Sam yn rhagweld y bydd yr astudiaeth hon hefyd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd y mae Llamau yn gweithio.

Mae'r allwedd i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r ymchwil hon drwy'r sefydliad cyfan, yn ôl Sam, yn

deillio nid yn unig o gefnogaeth bwrdd ac uwch dîm rheoli Llamau, sy'n credu ym mhwsigrwydd gweithredu wedi'i lywio gan dystiolaeth yn eu gwaith, ond hefyd o ennyn cefnogaeth gweddill y sefydliad wrth i brosiectau ymchwil ddatblygu. Ar gyfer pob darn o ymchwil, rhoddir cyflwyniadau ym mhob cyfarfod tîm (a ddsberthir wedyn) ar ddechrau, yn ystod ac ar ddiwedd y prosiect, a chânt eu hintegreiddio mewn rhaglenni ymgynefino a hyfforddiant i'r staff.

### Gwersi byrion

- Gall ymchwil lywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio, fel y gwnaeth ymchwil Llamau o ran gwella ymwybyddiaeth a sgiliau staff ym maes iechyd meddwl er mwyn iddynt weithio'n briodol gyda'r bobl ifanc a'r menywod y maent yn eu helpu. Gall hefyd gael effeithiau ehangach anfwriadol ar systemau, fel y dangosodd y diddordeb a fynegwyd gan feddygon teulu.
- Mae cynnwys staff ar bob lefel mewn darn o ymchwil o'r dechrau i'r diwedd yn allweddol i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd drwy'r sefydliad cyfan.
- Mae'n werth ystyried cyfleoedd i gael cyllid gan brifysgolion a chynghorau cyllido – mae gan lawer ohonynt gynlluniau i annog prosiectau ymchwil cymhwysol a chydweithredol, a all roi mynediad i elusennau at dystiolaeth am gost isel neu am ddim.
- Gwnaeth yr ymchwil gydweithredol a gynhaliwyd â Phrifysgol Caerdydd hefyd helpu i gynyddu faint o arian a godir o ffynonellau newydd – yn 2017-18, er enghraifft, cafodd Llamau ei henwi'n Elusen y Flwyddyn Ysgol Fusnes Caerdydd.

## Cynllunio gwasanaethau newydd: Mentor UK

Er bod llawer y gall elusennau ei ddysgu o bob rhan o'r DU ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio ar gyfer lluo o faterion (gweler y gwersi sy'n dod o ddeg Canolfan Beth sy'n Gweithio y DU<sup>23</sup>), gall edrych ymhellach draw, fel y gwnaeth Mentor UK hefyd ddwyn ffrwyth. Mentor UK yw elusen fwyaf blaenllaw'r DU o ran hyrwyddo ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth ym maes atal camddefnyddio alcohol a chyffuriau ymhlith plant a phobl ifanc.

Clywodd y tîm o Mentor UK am The Good Behaviour Game (GBG) yn gyntaf mewn cynhadledd Ewropeaidd ychydig o flynyddoedd yn ôl. Yn

wahanol iawn i un o'r rhaglenni hynny sy'n cael llawer o sylw yn y cyfryngau ond nad yw'n effeithiol mewn gwirionedd (neu sydd hyd yn oed yn niweidiol – byddwch wedi clywed am y dadleuon ynglŷn â Scared Straight<sup>24</sup>), mae'n siŵr, mae gan GBG, a ddatblygwyd yn yr UD yn 1969, dros 40 mlynedd o dystiolaeth gadarn i'w hategu. Drwy ymchwil hydredol a hap-dreialon wedi'u rheoli, honnodd GBG ei bod wedi cael canlyniadau pwerus a dramatig o ymddygiad gwell yn yr ystafell ddsbarth i lwyddiant academaidd gwell, yn ogystal â gwell canlyniadau o ran iechyd meddwl a chyfraddau camddefnyddio

sylweddau is yn ddiweddarach mewn bywyd.<sup>25</sup> Yn yr UD, mae'r rhaglen wedi'i rhestru ar y Gofrestr Genedlaethol o Raglenni ac Arferion sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, ac mae hefyd wedi cael ei phrofi mewn nifer o leoliadau o natur ddiwylliannol amrywiol, o'r Iseldiroedd i Chile i Ganada.<sup>26</sup> O ystyried y ddadl gref dros y rhaglen hon, yn syml, gallai Mentor UK fod wedi ei phrynu ac wedi'i chyflwyno ar raddfa fawr – ond mae yna enghreifftiau o raglenni sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth sy'n methu â gweithio mewn gwledydd neu leoliadau gwahanol.<sup>27</sup> Sut y gallai fod yn hyderus y byddai'r rhaglen yn gweithio yn y DU?

Er bod gan Y Sefydliad Ymchwil Americanaidd (AIR), sydd wedi'i drwyddedu i ddarparu GBG, reolaethau tynn dros y ffordd y dylid cynnal y rhaglen, roedd Mentor UK yn gallu gweithio gyda'r Sefydliad i addasu'r rhaglen ar gyfer cyd-destun y DU. Mae Mentor UK wedi cwblhau hap-dreialon wedi'u rheoli o GBG yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Dwyrain Lloegr yn ddiweddar, gyda chymorth Prifysgol Manceinion a'r Sefydliad Gwaddolion Addysgol – y Ganolfan Beth sy'n Gweithio i addysg - ac mae'n aros am y canlyniadau ar hyn o bryd.<sup>28</sup> Fel Pennaeth Rhaglenni Mentor UK, a Hyrwyddwr Tystiolaeth dros y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol, noda Jamila Boughelaf,

*"in current times, with budget cuts and increasing public health priorities, it's important that we invest in activities that have an impact on society".*

Er nad yw rhoi prawf ar raglen fel GBC yn gallu sicrhau canlyniadau ar unwaith, mae Mentor UK yn cydnabod ei bod yn fwy effeithiol - ac yn fwy cost-effeithiol - yn yr hirdymor i fod yn siŵr bod rhywbeth yn gweithio cyn ei gyflwyno'n gyffredinol.

### Gwersi byrion

- Er y byddai'n demtasiwn tybio y bydd rhaglen sy'n gweithio mewn mannau eraill yn gweithio yn y DU, mae'n amhosibl gwybod hynny. Er na all pob elusen ennill grant gwerth £800k i roi prawf ar ei rhaglen cyn ei chyflwyno, mae adolygiadau systematig fel y rhai a gyhoeddir gan y Campbell Collaboration yn lle da i ddechrau deall beth sy'n gweithio (a beth nad yw'n gweithio) mewn cyd-destunau gwahanol.
- Rydym yn llawer mwy tebygol o glywed am raglenni sy'n gweithio na rhaglenni nad ydynt yn gweithio. Mae'r un peth yn wir yn y byd academaidd, lle mae astudiaethau sy'n dangos dim effeithiau yn llai tebygol o gael eu cyhoeddi.<sup>29</sup> Os ydych yn rhoi cynnig ar raglen ac nad yw'n gweithio, efallai y byddech yn teimlo eich bod wedi gwastraffu llawer o amser ac arian – ond os ydych yn rhannu'r wybodaeth honno â sefydliadau eraill, gallwch eu helpu i wneud penderfyniadau mwy hyddysg yn y dyfodol, a fydd, yn ei dro, yn helpu'r sector elusennol i fod ryw damaid yn well.

## ★ NEWID Y DIRWEDD

### Cael gwleidyddion i gefnogi'ch achos: Remember a Charity

Hyd yn oed lle gall ffordd o weithio ymddangos yn reddfol gywir, gall fod yn anodd darbwyllo eraill heb sylfaen dystiolaeth i'w chefnogi. Mae Remember a Charity, sydd wedi'i lleoli yn y Sefydliad Codi Arian, yn rhwydwaith o fwy na 200 o elusennau sy'n gweithio gyda'i gilydd i annog mwy o bobl i adael rhoddion elusennol yn eu hewyllysiau. Tan yn ddiweddar, er bod Remember a Charity wedi credu ers amser fod gan gyfreithwyr rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau mwy o gymynroddion, nid oes gan yr elusen sylfaen dystiolaeth i ddangos hynny. Ac nid oedd yn gwybod ychwaith pa negeseuon a oedd yn gweithio orau ac i bwy. Roedd hyn yn golygu nid yn unig bod gan Remember a Charity gronfa eithaf bach o gwmnïau cyfreithwyr a oedd yn hyrwyddo'r achos dros gymynroddion, roedd

hefyd yn golygu ei bod yn anodd darbwyllo'r llywodraeth, a rhanddeiliaid eraill, i gymryd pwysigrwydd cyfreithwyr yn holi cleientiaid ynglŷn â chymynroddion o ddifrif. Fel y noda Rob Cope, Cyfarwyddwr Remember a Charity,

*"without an independent voice helping us make that case, no one was going to listen to us".*

Felly, yn 2013 comisiynodd Rob y Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol i gynnal arbrawf mewn canolfan galwadau cyfreithiol,<sup>30</sup> i brofi effeithiolrwydd awgrymiadau gwahanol i bobl adael arian yn eu hewyllys.<sup>31</sup> Canfu fod awgrymiadau penodol yn dylanwadu ar benderfyniad pobl i adael arian: roedd yn fwy effeithiol i gyfreithiwr ddweud

*"mae llawer o'n cwsmeriaid yn hoffi gadael rhodd i elusen yn eu hewyllys. A oes unrhyw achosion elusennol rydych yn eu cefnogi'n frwd?"* na dweud yn syml "a hoffech chi adael rhodd elusennol yn eich ewyllys?"<sup>32</sup>

Yna, yn 2016, gweithiodd Remember a Charity gyda'r Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol a Phrifysgol Bryste ar ddarn arall o ymchwil – y tro hwn, cyfres o hap-dreialon wedi'u rheoli gydag wyth cwmni cyfreithwyr – i ddatblygu'r astudiaeth gychwynnol ymhellach. Edrychwyd ar gyfres ehangach o awgrymiadau, p'un a oedd y rhain yn gweithio dros y ffôn yn ogystal ag wyneb yn wyneb, a beth oedd y rhai sy'n ysgrifennu ewyllysiau a'r cyhoedd yn ei feddwl ohonynt.<sup>33</sup> Mae Rob yn sôn am y ffordd y mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â mantra'r Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol, sef profi, dysgu, addasu:

*"It's important that we don't assume to know all the answers, and to recognise that one trial can't tell us everything. Often, RCTs throw up things we don't expect, so a series of trials has helped us to test things out as we go".*

Gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau hyn wedi cyfrannu corff sylweddol o dystiolaeth ym maes cymynroddion, ac wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'r ffordd y mae Remember a Charity yn gweithio, yn ogystal â'r dylanwad y mae wedi'i gael ar y llywodraeth, cyfreithwyr ac elusennau. Gan fod y Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol wedi'i leoli yn Swyddfa'r Cabinet ar y pryd, bu hynny'n fodd i Remember a Charity ddefnyddio ei chanfyddiadau i ddarbwylllo'r Gweinidog dros Gymdeithas Sifil i gefnogi'r ymgyrch. Ers pedair blynedd bellach, mae'r Gweinidog dros Gymdeithas Sifil – ac mae pedwar Gweinidog wedi dal y swydd yn ystod y cyfnod hwnnw - wedi cefnogi'r ymgyrch, gan ysgrifennu at filoedd o gyfreithwyr yn gofyn iddynt godi ymwybyddiaeth o gymynroddion ymhlith eu cleientiaid.<sup>34</sup> Yn ôl Rob, heb y dystiolaeth

i ddadlau'r achos, yn syml, ni fyddai hynny wedi digwydd. A mwy na hynny, mae Rob hefyd yn credu bod y dystiolaeth hon wedi helpu i gynyddu nifer y cwmnïau cyfreithwyr sy'n cefnogi ymgyrch Remember a Charity o tua 100 i fwy na 1,300 rhwng 2011 a 2016 ac, yn ystod yr un cyfnod hwnnw, i gynyddu nifer yr ewyllysiau sy'n cynnwys rhodd elusennol o 12 y cant.

Yn sgil llwyddiant yr ymchwil hon, mae Remember a Charity wedi cymeradwyo defnyddio llwyfan Profi ac Adeiladu newydd y Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol yn ddiweddar, lle mae'n bwriadu ystyried sut y gall cyflogwyr gynyddu cymynroddion ymhlith staff. I Rob, mae'n hollbwysig bod yr elusen yn parhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ei gwaith, gan helpu i sicrhau bod ei hymgyrchoedd mor effeithiol â phosibl.

### Gwersi byrion

- Er y gallai ymddangos yn reddfodl gywir i weithio mewn ffordd benodol, heb dystiolaeth gadarn i'w chefnogi, gall fod yn anodd ennyn cefnogaeth rhanddeiliaid eraill. Gall tystiolaeth sy'n cadarnhau ein tybiaethau presennol fod yr un mor bwysig â'r hyn sy'n dweud rhywbeth annisgwyl wrthym.
- I elusen fel Remember a Charity, sydd wedi dibynnu ar sefydliadau allanol megis cwmnïau cyfreithwyr i gynnal ymchwil, mae'n hollbwysig bod y sefydliadau hyn yn ymrwymedig i hyrwyddo'r gwaith yn fewnol ymhlith eu staff, a'u bod yn credu yng ngwerth yr ymchwil.
- Gall dewis y partner ymchwil cywir ddod â manteision ychwanegol - gall sefydliad sy'n uchel ei barch ymhlith y cynulleidfaoedd rydych yn anelu at ddylanwadu arnynt ac sydd â rhwydweithiau da nid yn unig helpu i ddenu sefydliadau partner, os yw hynny'n berthnasol, ond hefyd agor drysau i chi o ran defnyddio'ch tystiolaeth i gael effaith.



## Llywio polisiâu: Canolfannau Cyngor ar Bopeth yr Alban

Mae Canolfannau Cyngor ar Bopeth (CAB) yr Alban yn darparu gwasanaethau cyngor mewn 300 o leoedd ledled y wlad, o ganol dinasoedd i gymunedau ynysoedd. Yn 2016-2017 llwyddodd y rhwydwaith CAB i helpu 275,000 o bobl – tua un o bob 14 oedolyn yn yr Alban – i ymdrin â mwy na 930,000 o faterion a oedd yn gofyn am gyngor. Roedd dros ddau o bob pump o'r materion hyn yn ymwneud â budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Mae'r sefydliad mantell ar gyfer y canolfannau – Cyngor ar Bopeth yr Alban (CAS) – yn mynd i'r afael ag un o ddau nod y gwasanaeth, sef defnyddio'r data a gesglir gan y canolfannau i gael dylanwad cadarnhaol ar y broses o ddatblygu polisiâu. Mae niferoedd mawr cleientiaid CAB, ynghyd â'r mynediad uniongyrchol at y rhai y mae newidiadau deddfwriaethol a newidiadau i bolisiâu yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, yn rhoi sylfaen gadarn dros gyflwyno dadleuon.

Mae'r Alban wedi bod yn cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn lle'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ers mis Mehefin 2013. Mae Llywodraeth yr Alban am ddatblygu dull gweithredu unigryw o ymdrin â nawdd cymdeithasol yn yr Alban, gan gynnwys budd-daliadau i bobl anabl a gofalwyr. Yn 2016, ymgynghorodd ar hyn ac roedd CAS yn gallu ymateb yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan y sefydliad o'r rheng flaen ac ymchwil ar wahân.

Lluniodd Llywodraeth yr Alban bartneriaeth â CAS, a rhoddodd grant bach, er mwyn cryfhau ei ymateb drwy ariannu nifer o weithgareddau. Yn gyntaf, cynhaliodd CAS 'grŵp ffocws i gynghorwyr' lle y gallai swyddogion Llywodraeth yr Alban ryngweithio'n uniongyrchol â'r rhai ar y rheng flaen yn rhoi cymorth. Yn dilyn hyn, cynhaliodd 14 o ganolfannau (o'r Ynys Hir i Glasgow) grwpiau ffocws (n=10) neu gyfweiliadau unigol (n=18) â chleientiaid, gyda chymorth Pecynnau Cymorth Ymchwil. At hynny, cynhaliwyd arolwg ar-lein i Gynghorwyr ledled yr Alban.

Datblygwyd y pecynnau cymorth ar y cyd gan y Timau Ymchwil a Gweithredu Cymunedol o fewn CAS er mwyn rhoi canllaw i'r canolfannau ar sut i drefnu a rhedeg grŵp ffocws effeithiol, ynghyd â 'fframweithiau adrodd' safonol i roi adborth. Hefyd, darparwyd amlinelliadau (gan gynnwys cwestiynau ac awgrymiadau) a rhestr cyfweiliadau ar gyfer grwpiau ffocws.

Er y gall y fath ddefnydd o ymchwilwyr heb eu hyfforddi fod yn heriol<sup>35</sup> o ran ansawdd a chysondeb, mae CAS yn hyderus, oherwydd y cymorth a roddwyd gan ymchwilwyr CAS, a'r Tim Gweithredu Cymunedol, sydd mewn cysylltiad rheolaidd â chanolfannau, i'r heriau gael eu goresgyn yn effeithiol. Aeth CAS

ati i gyfathrebu â chanolfannau wrth ddatblygu'r dull gweithredu er mwyn deall eu hanghenion a'r cyfyngiadau arnynt, megis y nifer fawr o bobl y maent yn eu gweld bob dydd sy'n wynebu materion cymhleth.

Tynnodd yr ymchwil sylw at brofiad a syniadau cynghorwyr medrus CAB, a'u cleientiaid – pobl sy'n defnyddio'r system nawdd cymdeithasol – a bwydodd i mewn yn uniongyrchol i broses gwneud penderfyniadau Llywodraeth yr Alban. Mae'n dipyn o gamp cyrraedd cymaint o bobl y clywir ganddynt yn anfynych, ac mae wedi cynnig model y bydd CAS yn ystyried ei ddefnyddio eto yn y dyfodol.

Fel yr esbonia Rob Gowans, Swyddog Polisi yn Cyngor ar Bopeth yr Alban,

*"Having a strong evidence base is the lifeblood of our policy work. Decision-makers respect and value our input because of the strength and authenticity of our evidence – we wouldn't be able to do what we do without research."*

O safbwynt Llywodraeth yr Alban, bu'r rhyngweithio uniongyrchol â chynghorwyr a'r wybodaeth a gasglwyd gan ganolfannau cyngor ar bopeth yn hynod werthfawr, ac mae wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n bwriadu i bwerau datganoledig weithredu mewn perthynas â budd-daliadau anabled. Er enghraifft, mae Llywodraeth yr Alban wedi cynnwys cyfres o egwyddorion arweiniol ym Mil Nawdd Cymdeithasol yr Alban, yn benodol, bod yn rhaid i barch tuag at unigolion fod wrth wraidd y system nawdd cymdeithasol, sef un o argymhellion ymchwil CAS, ac mae'r Llywodraeth yn arwain ymgyrch codi ymwybyddiaeth yng ngoleuni argymhelliad CAS i gynyddu nifer y bobl sy'n gymwys i gael budd-daliadau i bobl anabl a gofalwyr.

### Gwersi byrion

- Wrth geisio safbwyntiau'r rhai sy'n cael eu labelu weithiau'n bobl 'y clywir ganddynt yn anfynych', weithiau, y ffordd orau o weithredu yw cael y rhai sydd eisoes mewn cysylltiad i hwyluso mynediad.
- Yn aml, gall gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sydd am gyflawni nodau tebyg gyflawni mwy na gweithio'n unigol.
- Gyda'r cymorth a'r wybodaeth gywir, mae'n bosibl i'r rhai nad ydynt yn ymchwilwyr wneud cyfraniad gwerthfawr i'r broses o gasglu tystiolaeth.

# Beth rydym wedi'i ddysgu?

Rhwng y saith astudiaeth achos rydym wedi nodi pum pwynt dysgu allweddol. Ceir trosolwg o bob un ohonynt a'n myfyrdodau ar y rhain isod.

## Nid oes rhaid i ddefnyddio tystiolaeth fod yn gostus

Rydym yn eiriolwyr brwd dros ddefnyddio tystiolaeth ymchwil sy'n bodoli eisoes sy'n drylwyr, yn berthnasol, ac yn annibynnol.<sup>36</sup> Dyma'r hyn rydym yn ei addysgu yn y Gynghrair yn ein Dosbarthiadau Meistr ar Dystiolaeth ac yn sôn amdano yn ein digwyddiadau ac yn ein cyhoeddiadau, ac fel y dengys yr astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn, mae elusennau o bob math yn gwneud defnydd o ymchwil sydd eisoes yn bodoli. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar adroddiad Data for Good Nesta i weld mwy o enghreifftiau.<sup>37</sup>

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn un o nifer o sefydliadau sy'n cyfodod ymchwil sy'n bodoli eisoes er mwyn ei gwneud yn hygyrch ac yn ddefnyddiol i lunwyr polisïau ac ymarferwyr. I weld rhestr gynhwysfawr o sefydliadau sy'n helpu i gyfodod tystiolaeth mewn nifer o feysydd, edrychwch ar adnodd Ecosystem Tystiolaeth y DU y Gynghrair – efallai y bydd y crynodebau o ymchwil i lunwyr polisïau ac ymarferwyr a'r Canolfannau Beth sy'n Gweithio yn arbennig o ddefnyddiol.

Ar gyfer meysydd lle nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd, mae cymorth ymchwil am ddim neu fforddiadwy ar gael gan sefydliadau fel Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau Cyngor Cenedlaethol y Sefydliadau Gwirfoddol a chynllun pro bono Y Gymdeithas Ymchwil Weithredol, neu gan academyddion prifysgol sydd â diddordeb yn eich achos. Gall Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth fod yn ffordd dda o gydweithredu, neu edrychwch ar Fenter Partneriaethau Cymunedau a Phrifysgolion y Ganolfan Gydgysylltu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

## Mae tryloywder yn gwella'r sector

Clywsom gan Mentor UK am bwysigrwydd cyhoeddi canfyddiadau ymchwil, am yr hyn sy'n gweithio yn ogystal â'r hyn nad yw'n gweithio. Mae hyn hefyd yn gymwys i gyllidwyr: Mae 360 Giving wedi annog llawer i gyhoeddi data ar yr hyn a ariennir ganddynt a ble, ac mae cyllidwyr hefyd mewn sefyllfa dda i rannu rhai o'r gwersi cyfunol a ddysgwyd ganddynt ynglŷn â chanlyniadau â gweddill y sector, fel y gwna Nest wrth rannu'r gwersi a ddysgwyd ganddo fel cyllidwr.<sup>38</sup>

Mae bod yn dryloyw hefyd yn golygu bod yn agored am y dystiolaeth y tu ôl i raglen benodol. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i gael y llywodraeth i wneud hyn yn well, gan gydweithredu â Sense about Science a'r Sefydliad Llywodraeth i lunio fframwaith tryloywder,<sup>39</sup> a chynnal asesiad<sup>40</sup> a hap-wiriad<sup>41</sup> o ba mor dryloyw yw gwahanol adrannau o'r llywodraeth o ran y dystiolaeth a ddefnyddir ganddynt i lywio eu polisïau. Gallai dull gweithredu tebyg gan y sector elusennol amlygu'r ymchwil sy'n mynd rhagddi y tu ôl i'r llenni, a chyfrannu at ddiwylliant mwy agored yn y sector. Gall hyn helpu elusennau i wella eu heffeithiolrwydd a gwella eu hygyrdedd allanol. Mae Giving Evidence wedi ysgrifennu am achosion o beidio â chyhoeddi ymchwil gan elusennau os hoffech ddarllen rhagor am y pwnc hwn.<sup>42</sup>

## Profi'r hyn rydym yn credu ein bod yn ei wybod eisoes

Mae'n demtasiwn canolbwyntio ar dystiolaeth sy'n dweud wrthym am bethau nad ydym yn siŵr yn eu cylch, sy'n fwy tebygol o'n synnu, na thystiolaeth sy'n cadarnhau'r hyn roeddem yn ei feddwl eisoes. Ond mae'n bwysig ein bod yn rhoi prawf ar ein tybiaethau, hefyd, fel y mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn wedi'u nodi – nid yn unig am fod hynny'n helpu i gryfhau ein hachos os yw'r tybiaethau'n gywir, ond hefyd (ac yn bwysicach na hynny, efallai) gall ddangos i ni ble mae'r tybiaethau hynny'n gyfeiliornus, a datgelu tybiaethau ymhlyg peryglus na fyddem fel arall yn sylwi arnynt ac felly na fyddem yn eu herio yn ein gwaith, fel y mae erthygl ar 'Discovery-driven planning' yn y *Harvard Business Review* yn ei rybuddio.<sup>43</sup> Mae'n dwyn risg, wrth gwrs, ac nid yw bob amser yn dderbyniol i gyllidwyr, fel y mae Elliot Trevithick, ymgynghorydd ar dystiolaeth, wedi sôn amdano yn ei flog.<sup>44</sup> Mae bod yn gyfforddus â dysgu gwirioneddau moel a sicrhau o'r dechrau bod eich cyllidwyr yn gyfforddus â hynny hefyd yn rhan hollbwysig o'r broses o gasglu tystiolaeth.

A mwy na hynny, fel y soniwyd amdano yn ein Canllaw Ymarferol, mae mwy o risg, pan fyddwn yn rhoi prawf ar ein tybiaethau, y byddwn yn fwy tebygol o ildio i duedd cadarnhad, lle rydym yn gweld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r hyn roeddem yn ei gredu'n flaenorol, ac yn anwybyddu'r hyn nad yw'n cyd-fynd.<sup>45</sup> Mewn araith yn 2016, cawsom ein hannog gan Geoff Mulgan o Nesta i "*seek disconfirmation as well as confirmation. To learn and not just repeat ideas because they are plausible, or fashionable*".<sup>46</sup> Gall myfyrio ar ein tueddiadau a cheisio safbwyntiau annibynnol helpu i osgoi tuedd cadarnhad.

## Gall tystiolaeth roi mwy na'r disgwyl i chi

O gael effeithiau anfwriadol ar y ffordd y mae meddygon teulu yn trin iechyd meddwl, i nodi ffrydiau codi arian newydd, i'ch partner ymchwil yn agor drysau i chi o ran polisïau, mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn dangos y gall defnyddio tystiolaeth dda esgor ar ganlyniadau pellgyrhaeddol ac annisgwyl. Er na fydd y rhain bob amser yn gadarnhaol, wrth gwrs, mae'n werth meddwl am unrhyw ffordd y gallwch fanteisio i'r eithaf ar y cydberthnasau rydych yn eu meithrin.

Nod yr #iwill Fund, er enghraifft, sy'n ariannu prosiectau gweithredu cymdeithasol ieuencid yw creu amgylchedd dysgu er mwyn rhannu'r hyn sy'n gweithio, yn ogystal â'r mentrau nad ydynt wedi bod mor llwyddiannus, gan sicrhau bod cyllid yn helpu i feithrin gwybodaeth sefydliadol rhwng partneriaid cyflawni a chyllidwyr. Mae gwaith y Sefydliad Ymchwil Gweithredu Gwirfoddol ar 'gyllido a mwy' yn rhoi rhai enghreifftiau diddorol o'r ffordd y mae cyllidwyr yn rhoi mwy nag arian, megis cyflwyniadau i bartneriaid newydd, hyfforddiant, a chymorth i lobiö.<sup>47</sup>

A mwy na hynny, fel y dengys rhai o'r elusennau sy'n rhan o'r adroddiad hwn, gall tystiolaeth dalu amdani'i hun (a mwy) drwy godi ymwybyddiaeth a chynyddu refeniw.

## Peidiwch ag anghofio'r bobl

Mae ymgorffori dysgu mewn sefydliad yn bwysig nid yn unig i fanteisio i'r eithaf ar yr hyn y mae tystiolaeth yn ei nodi, ond mae hefyd yn ei gwneud yn haws i chi ofyn i staff rheng flaen a gwirfoddolwyr am eu cymorth i gasglu tystiolaeth eu hunain. Mae'r [blog](#) diweddar hwn gan Cyngor ar Bopeth yn esbonio sut mae'n gwneud tystiolaeth yn berthnasol i'w wirfoddolwyr a'i staff – nid oes syndod bod y ffordd y caiff tystiolaeth ei chyfleu yn rhan allweddol o hyn. Adlewyrchir hyn yn ein hastudiaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran galluogi'r defnydd o dystiolaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau – mae rhoi tystiolaeth yn ei chyd-destun a'i theilwra ar gyfer y cynulleidfaoedd cywir mewn ffyrdd hwylus sydd wedi'u targedu, adrodd straeon, a rhoi sylw i frandio er mwyn sicrhau mwy o ddibynadwyedd i gyd yn bwysig o ran cyfleu tystiolaeth.<sup>48</sup>

## Y gair olaf

O'r holl astudiaethau achos a ddisgrifir yma, yr hyn sy'n dod i'r amlwg yw y gall tystiolaeth esgor ar nifer o fanteision ymarferol. P'un a yw'n ymwneud â herio'r ffordd y mae elusennau yn hyrwyddo eu hachos, newid sut mae staff yn rhyngweithio â'r rhai y maent yn eu helpu, neu gael y llywodraeth i feddwl yn wahanol am y system les, mae pob un o'r elusennau hyn yn dangos yr hyn a all ddigwydd pan gaiff tystiolaeth dda ei defnyddio'n effeithiol. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn eich ysbrydoli i feddwl am y ffordd y gallwch ddefnyddio tystiolaeth i sicrhau mwy o ddylanwad, effeithiolrwydd, ac effaith.

# Ôl-nodiadau

1. Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Elusennau (2017) 'Stronger Charities for a Stronger Society.' Llundain: Tŷ'r Arglwyddi. T.3, cyrchwyd ar 13 Ebrill 2018 yn <https://publications.parliament.uk/pa/ld201617/ldselect/ldchar/133/133.pdf>
2. Bach-Mortensen, A.M. a Montgomery, P. (2018) 'What are the barriers and facilitators for third sector organisations (non-profits) to evaluate their services? A systematic review.' 'Systematic Reviews.' (2018), 7:13.
3. Breckon, J. a Dodson, J. (2018) 'Using evidence: What works? A discussion paper.' Llundain: Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol. T.21, cyrchwyd ar 2 Mai 2018 yn <https://www.alliance4usefulevidence.org/publication/using-evidence-what-works-april-2016/>
4. Mulgan, G. (19 Mawrth 2015) 'The six Ws: A formula for what works'. Blog gan Nesta, cyrchwyd ar 13 Ebrill 2018 yn <https://www.nesta.org.uk/blog/six-ws-formula-what-works>
5. Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol (2016) 'Using Research Evidence: A Practice Guide.' Llundain: Nesta. T.13, cyrchwyd ar 8 Mai 2018 yn [https://www.nesta.org.uk/sites/default/files/using\\_research\\_evidence\\_for\\_success\\_-\\_a\\_practice\\_guide.pdf](https://www.nesta.org.uk/sites/default/files/using_research_evidence_for_success_-_a_practice_guide.pdf)
6. Nutley, S., Powell, A. a Davies, H. (2013) 'What counts as good evidence?' Papur procio i'r Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol, Uned Ymchwil i Ddefnyddio Ymchwil, Ysgol Reoli, Prifysgol St Andrews, a gyrchwyd ar 15 Mehefin 2018 yn <https://www.alliance4usefulevidence.org/assets/What-Counts-as-Good-Evidence-WEB.pdf/>
7. Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol (2016) 'Using Research Evidence: A Practice Guide.' T.12.
8. Crompton, T. a Thogersen, J. (2009) 'Simple and painless? The limitations of spillover in environmental campaigning.' Godalming: WWF. Cyrchwyd ar 25 Ebrill 2018 yn [https://valuesandframes.org/resources/CCF\\_report\\_simple\\_and\\_painless.pdf](https://valuesandframes.org/resources/CCF_report_simple_and_painless.pdf)
9. Evans, L., et al. (2012) Self-interest and pro-environmental behavior. 'Nature Climate Change.' 3, 122-125.
10. Bernard, M. M., Gebauer, J. E. a Maio, G. R. (2006) Cultural estrangement: The role of 44 personal and societal value discrepancies. 'Personality and Social Psychology Bulletin.' 32(1), 78-92.
11. Common Cause Foundation (2016) 'Perceptions matter: The Common Cause UK values survey.' Llundain: Common Cause Foundation. Cyrchwyd ar 5 Ebrill 2018 yn [https://valuesandframes.org/resources/CCF\\_survey\\_perceptions\\_matter\\_full\\_report.pdf](https://valuesandframes.org/resources/CCF_survey_perceptions_matter_full_report.pdf)
12. Murray, P., Shea, J. a Hoare, G. (2017) 'Charities taking charge: Transforming to face a changing world.' Llundain: NPC. Cyrchwyd ar 13 Ebrill 2018 yn <https://www.thinknpc.org/publications/charities-taking-charge/>
13. Green, C. (2014) There are too many charities doing the same work, claims Charity Commission chief executive. 'The Independent.' (25 Mehefin 2014), cyrchwyd ar 31 Ionawr 2018 yn [www.independent.co.uk/news/uk/home-news/there-are-too-many-charities-doing-the-same-work-claims-charity-commission-chief-executive-9562997.html](http://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/there-are-too-many-charities-doing-the-same-work-claims-charity-commission-chief-executive-9562997.html)
14. Llywodraeth yr Alban (2018) 'Reducing loneliness and isolation.' Cyrchwyd ar 9 Chwefror 2018 yn <https://beta.gov.scot/news/reducing-loneliness-and-isolation/>
15. Holt-Lunstad, J., Smith, T.B. a Layton, J.B. (2010) 'Social relationships and mortality risk: a meta-analytic review'. 'PLoS Medicine.' 7, a gyrchwyd ar 15 Mehefin 2018 yn <https://doi.org/10.1371/journal.pmed.1000316>
16. Yr Ymgyrch i Roi Terfyn ar Unigrwydd 'The facts on loneliness' a gyrchwyd ar 5 Ebrill 2018 yn <https://www.campaigntoendloneliness.org/the-facts-on-loneliness/>
17. Yr Ymgyrch i Roi Terfyn ar Unigrwydd 'Lonely visits to the GP' (15 Tachwedd 2013) a gyrchwyd ar 5 Ebrill 2018 yn <https://www.campaigntoendloneliness.org/blog/lonely-visits-to-the-gp/>
18. Renaisi (2016) 'North and South London Cares: Evaluation and Development through the Centre for Social Action Innovation Fund, August 2014-March 2016.' Llundain: Renaisi. Cyrchwyd ar 13 Ebrill 2018 yn <https://northlondoncares.org.uk/assets/uploads/img/Final-Renaisi-Report-with-updates-June-16.pdf>
19. Am ragor am farn Alex ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar bobl, edrychwch ar y blog hwn: Alex Smith (1 Awst 2017), 'Community doesn't have to be squeezed by bureaucracy', y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, a gyrchwyd ar 13 Ebrill 2018 yn <https://www.scie.org.uk/future-of-care/asset-based-places/blogs/community-bureaucracy>
20. Mae cynllun Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth yn ariannu cydweithrediadau rhwng busnesau (ac elusennau) a phrifysgolion. Mae rhagor o fanylion yn <https://www.gov.uk/guidance/knowledge-transfer-partnerships-what-they-are-and-how-to-apply/>
21. Hodgson, K. J. (2014) 'The mental health of young people with experiences of homelessness.' traethawd ymchwil doethuriaeth (2014), Prifysgol Caerdydd, a gyrchwyd ar 10 Ebrill 2018 yn <http://orca.cf.ac.uk/59590/2/2014hodgsonphd.pdf>
22. Diddymwyd y swydd hon yn 2016 a rhannwyd y portffolio rhwng y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

23. Y Rhwydwaith Beth sy'n Gweithio (2018) 'The What Works Network: Five Years On.' Cyrchwyd ar 8 Chwefror 2018 yn: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/677478/6.4154\\_What\\_works\\_report\\_Final.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/677478/6.4154_What_works_report_Final.pdf)
24. Petrosino, A. et al., (2012) 'Scared Straight and Other Juvenile Awareness Programs for Preventing Juvenile Delinquency: A Systematic Review.' Oslo: Campbell Systematic Reviews, Campbell Collaboration (Mehefin 2012).
25. Kellam S.G., Brown C. H., Poduska J., et al. (2008) 'Effects of a Universal Classroom Behavior Management Program in First and Second Grades on Young Adult Behavioral, Psychiatric, and Social Outcomes.' 'Drug and Alcohol Dependence.' (2008), 95 (Atodiad 1): S5-S28.
26. Nolan, J. D. et al. (2014) The Good Behavior Game: A classroom-behavior intervention effective across cultures. 'School Psychology International.' (2014), 35, 2: 191-205.
27. Williams, M. J. (2017) 'External validity and policy adaptation: From impact evaluation to policy design.' cyfres o bapurau gwaith BSG, Prifysgol Rhydychen (Gorffennaf 2017).
28. Gweler <https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/the-good-behaviour-game/#closeSignup> am ragor o fanylion.
29. Gweler adroddiad y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol (2016) 'Using research evidence: A practice guide.' (t.29) am ragor o wybodaeth am yr hyn a elwir yn 'duedd cyhoeddi'.
30. Yn y ganolfan galwadau cyfreithiol hon, ffoniodd cleientiaid i siarad â chyfreithwyr a gwneud ewyllys dros y ffôn.
31. Er nad oedd ganddynt grŵp rheoli dim triniaeth, gan fod gan y ganolfan galwadau cyfreithiol reol y dylai pob cleient gael ei holi ynglŷn â gwneud rhodd elusennol, roedd ymchwilwyr yn gallu cymharu lefelau cymynroddion yn ystod y cyfnod triniaeth â'r cyfnod cyn triniaeth, gan ddarganfod bod lefelau rhoddi yn llawer uwch yn ystod yr arbrawf.
32. Sanders, M. a Smith, S. (2016) Can simple prompts increase bequest giving? Field evidence from a legal call centre. 'Journal of Economic Behaviour & Organisation'. 125 (2016), tt.179-191.
33. Sanders, M., Smith, S., Groot, B. a Nolan, D. (2016) 'Legacy Giving and Behavioural Insights'. y Tim Mewnwelediadau Ymddygiadol, Prifysgol Bryste a Remember a Charity (2016).
34. Remember a Charity (2017) 'Charities Minister highlights importance of legacy giving.' (7 Rhagfyr 2017), cyrchwyd ar 29 Mawrth 2018 yn <https://www.rememberacharity.org.uk/news/charities-minister-highlights-importance-legacy-giving/>
35. Gweler Dickinson, J. L., Zuckerman, B. a Bonter, D. N. (2010) Citizen Science as an Ecological Research Tool: Challenges and Benefits. 'Annual Review of Ecology, Evolution, and Systematics'. (2010), 41: 149-172, yn enwedig tt.161-164.
36. Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol (2016) 'Using Research Evidence: A Practice Guide.' Llundain: Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol tt.8-9, a gyrchwyd ar 8 Mai 2018 yn: [https://www.nesta.org.uk/sites/default/files/using\\_research\\_evidence\\_for\\_success\\_-\\_a\\_practice\\_guide.pdf](https://www.nesta.org.uk/sites/default/files/using_research_evidence_for_success_-_a_practice_guide.pdf)
37. Baeck, P. (gol.) (2015) 'Data for good: How big and open data can be used for the common good.' Llundain: Nesta. Cyrchwyd ar 2 Gorffennaf 2018 yn <https://media.nesta.org.uk/documents/dataforgood.pdf>
38. Er enghraifft, gweler Sellick, V. (2016) 'People helping people: Lessons learned from three years supporting social action innovations to scale.' Llundain: Nesta. Cyrchwyd ar 24 Mai 2018 yn: [https://media.nesta.org.uk/documents/people\\_helping\\_people\\_lessons\\_learned.pdf/](https://media.nesta.org.uk/documents/people_helping_people_lessons_learned.pdf/)
39. Rutter, J. a Gold, J. (2015) 'Show your workings: Assessing how government uses evidence to make policy'. Llundain: Y Sefydliad Llywodraeth. Cyrchwyd ar 5 Ebrill 2018 yn: <https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/4545%20IFG%20-%20Showing%20your%20workings%20v8b.pdf>
40. Sense about Science (2016) 'Transparency of evidence: An assessment of government policy proposals May 2015 to May 2016.' Llundain: Sense about Science. Cyrchwyd ar 5 Ebrill 2018 yn <http://senseaboutscience.org/wp-content/uploads/2016/11/SaS-Transparency-of-Evidence-2016-Nov.pdf>
41. Sense about Science (2018) 'Transparency of evidence: A spot check of government policy proposals July 2016 to July 2017'. Llundain: Sense about Science. Cyrchwyd ar 5 Ebrill 2018 yn: <http://senseaboutscience.org/wp-content/uploads/2018/01/Transparency-of-evidence-spotcheck.pdf>
42. Giving Evidence (2 Chwefror 2015), 'Non-publication of charities' research: groundbreaking new project!' Cyrchwyd ar 24 Mai 2018 at: <https://giving-evidence.com/2015/02/02/non-publication/>
43. Gunther Mcgrath, R. a Macmillan, I. (1995) Discovery-driven planning. 'Harvard Business Review.' (Gorffennaf-Awst 1995), cyrchwyd ar 24 Mai 2018 yn: <https://hbr.org/1995/07/discovery-driven-planning>
44. Trevithick, E. (2018) 'To evaluate or not to evaluate? That isn't the question'. Blog Nesta, cyrchwyd ar 24 Mai 2018 yn: <https://www.nesta.org.uk/blog/to-evaluate-or-not-to-evaluate-that-isnt-the-question/>
45. Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol (2016) 'Using Research Evidence: A Practice Guide.' Llundain: Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol tt.8-9, a gyrchwyd ar 8 Mai 2018 yn: [https://www.nesta.org.uk/sites/default/files/using\\_research\\_evidence\\_for\\_success\\_-\\_a\\_practice\\_guide.pdf](https://www.nesta.org.uk/sites/default/files/using_research_evidence_for_success_-_a_practice_guide.pdf)
46. Mulgan, G. 'How would we know if you were wrong?' Araith agoriadol yng Nghynhadledd Labordai Tyfu Arloesedd (Mai 2016), a gyrchwyd ar 24 Mai 2018 yn: <https://www.nesta.org.uk/blog/how-would-we-know-if-you-were-wrong/>.
47. Cairns, B., Burkeman, S., Harker, A. a Buckley, E. (2011) 'Beyond money: A study of funding plus in the UK.' IVAR. Cyrchwyd ar 25 Mai 2018 yn: <https://www.ivar.org.uk/publication/beyond-money/>
48. Breckon, J. a Dodson, J. (2016) 'Using evidence: What works? A discussion paper.' Llundain: Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol. T.21, a gyrchwyd ar 2 Mai 2018 yn: <https://www.alliance4usefulevidence.org/publication/using-evidence-what-works-april-2016/>



**nesta**

58 Victoria Embankment  
London EC4Y 0DS

+44 (0)20 7438 2500

[information@nesta.org.uk](mailto:information@nesta.org.uk)

 [@nesta\\_uk](https://twitter.com/nesta_uk)

 [www.facebook.com/nesta.uk](https://www.facebook.com/nesta.uk)

[www.nesta.org.uk](http://www.nesta.org.uk)

Nesta is a registered charity in England and Wales with company number 7706036 and charity number 1144091.  
Registered as a charity in Scotland number SCO42833. Registered office: 58 Victoria Embankment, London, EC4Y 0DS.

